| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 14 Tachwedd 2023 |
| **Aelod Arweiniol** | Y Cynghorydd Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu a Busnes |
| **Awdur yr adroddiad** | Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| **Teitl** | Penodi Aelod i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn gofyn am gadarnhad ynghylch yr aelod etholedig sydd i'w phenodi i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae penodi cynrychiolydd i fod yn aelod o'r Panel yn swyddogaeth sydd gan y Cyngor. Penodiad blaenorol y Cyngor i'r Panel oedd y Cynghorydd Pete Prendergast.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn penodi'r Cynghorydd Diane King i fod ar Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru dros gyfnod y Cyngor hwn neu hyd y penodir rhywun arall.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Gall pob un o chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru enwebu aelod neu aelodau i eistedd ar y Panel. Mae nifer y seddi a ddyrennir i bob awdurdod yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol a gwasgariad y boblogaeth ar draws gogledd Cymru gyfan.

Defnyddir methodoleg D'Hondt i bennu sawl sedd a ddyrennir i bob awdurdod lleol ac i ba grŵp/grwpiau gwleidyddol y maent yn berthnasol.

4.2. Ar sail poblogaeth, mae Conwy, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam yn penodi 2 aelod yr un ac mae Sir Ddinbych ac Ynys Môn yn penodi 1 aelod yr un. Mae maint prif bleidiau gwleidyddol y cynghorau yng Ngogledd Cymru'n pennu sawl sedd y mae gan bob grŵp neu grwpiau hawl iddynt.

4.3. Roedd canlyniadau'r etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022 wedi arwain at sedd Sir Ddinbych yn cael ei ddyrannu i'r Blaid Lafur a enwebodd y Cynghorydd Pete Prendergast. Yn sgil marwolaeth ddiweddar y Cynghorydd Prendergast, gofynnir i'r Cyngor llawn gadarnhau penodi aelod newydd Sir Ddinbych i'r Panel Heddlu a Throsedd.  Enwebodd y Blaid Lafur y Cynghorydd Diane King.

4.4. Mae angen cymeradwyaeth ar wahân gan y Swyddfa Gartref hefyd cyn i'r aelod gymryd ei lle ar y Panel Heddlu a Throsedd.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Nid yw'r penodiad yn cyfrannu'n uniongyrchol at y cynllun corfforaethol, ond bydd yn cefnogi gwaith y Panel Heddlu a Throsedd mewn cysylltiad â Sir Ddinbych ddiogel.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Y Panel ei hun sy'n ysgwyddo cost aelodaeth y Panel Heddlu a Throsedd. Nid oes costau amlwg i'r Cyngor yn sgil y penodiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae aelodau Plaid Lafur y Cyngor yn gymwys i gael eu henwebu ac mae'r Blaid Lafur wedi enwebu aelod i gael ei phenodi i'r Panel Heddlu a Throsedd.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes yna faterion arian amlwg yn codi o’r penodiad arfaethedig.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

10.1. Bydd methu â phenodi aelod i’r Panel yn niweidiol i drefniadau llywodraethu Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Cylch gorchwyl Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn unol â Deddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.